

Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chymorth 2018-19

Cefndir

Mae'r cyfrifiad Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn seiliedig ar y diffiniad o blant cymwys sy'n derbyn gofal a chymorth h.y. plant (o dan 18 oed) sydd â chynllun gofal a chymorth. Mae gan blant sy'n derbyn gofal gynllun gofal a chymorth, a byddant yn is-set o'r boblogaeth hon.

Bydd y ffurflen hon yn cipio hefyd y plant hynny sydd â chynllun gofal a chymorth ac sydd mewn sefydliad diogel a phlant sydd â chynllun cymorth os ydynt yn darparu gofal i rywun arall.

Dylai data gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru'n flynyddol, gan adlewyrchu holl ddata'r flwyddyn ariannol berthnasol. Bydd data'r flwyddyn gyntaf yn rhoi manylion plant sy'n derbyn gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2019.

Nodiadau Cyfarwyddyd ar gwblhau a chyflwyno

Dylai'r ffurflen Plant sy'n derbyn gofal a chymorth 2018-19 gael ei defnyddio i gofnodi data unigol ar blant sy'n derbyn gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2019.

Gofynion data

Mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau lleol gyflwyno data ar blant a oedd â chynllun gofal a chymorth ar ddyddiad y cyfrifiad, sef 31 Mawrth 2019, a oedd wedi bod ar waith am y 3 mis blaenorol h.y. roedd y cynllun gofal a chymorth wedi bod ar waith ers 1 Ionawr 2018 o leiaf a'i fod yn dal i fod ar waith ar 31 Mawrth 2019.

Mae angen ffurflen unigol ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth.

Meysydd Cywir / Anghywir: Mae yna amryw o eitemau yn y cyfrifiad Plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd naill ai'n gywir neu'n anghywir. Y fformat ar gyfer y cyfrifiad Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yw 1 ar gyfer y ffurf gywir a 0 ar gyfer y ffurf anghywir. Fodd bynnag, efallai y bydd defnyddwyr systemau gwybodaeth reoli yn gallu cofnodi hyn mewn sawl ffordd, megis trwy roi tic mewn bocs neu drwy gwymplen addas. Felly, bydd rhaid i'r swyddogaeth allforio ar gyfer unrhyw system drosi'r meysydd hyn yn unol â hynny. Os bydd eitemau wedi'u gadael yn wag, rhagdybir nad oes data ar gael ar eu cyfer.

Dylai cwestiynau ynghylch a oes gan neu a oedd gan y plentyn neu rieni'r plentyn briodolddau penodedig e.e. problemau iechyd neu anabled, gael eu hateb gyda chyfeiriad at ddyddiad y cyfrifiad, sef 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn golygu bod y priodolddau'n gyfredol yn ôl y wybodaeth sydd ar gael ar 31 Mawrth 2019.

Mae rhestr lawn o eitemau data yn Atodiad A. Mae'r nodiadau canlynol yn rhoi cyfarwyddyd manwl pellach ar adrannau penodol:

Cod awdurdod lleol

- 512 Ynys Môn
- 514 Gwynedd
- 516 Conwy
- 518 Sir Ddinbych
- 520 Sir y Fflint
- 522 Wrecsam
- 524 Powys
- 526 Ceredigion
- 528 Sir Benfro
- 530 Sir Gâr
- 532 Abertawe
- 534 Castell-nedd Port Talbot
- 536 Pen-y-bont ar Ogwr
- 538 Bro Morgannwg
- 540 Rhondda Cynon Taf
- 542 Merthyr Tudful
- 544 Caerffili
- 545 Blaenau Gwent
- 546 Torfaen
- 548 Sir Fynwy
- 550 Casnewydd
- 552 Caerdydd

Rhif adnabod plant yr awdurdod lleol

Rhaid i hwn fod yn rhif adnabod unigryw ar gyfer pob plentyn, a rhaid ei gadw o flwyddyn i flwyddyn. Gall rhif adnabod plant yr ALI gynnwys llythrennau neu rifau yn unig. Rhaid iddo fod yr un rhif adnabod ag a ddefnyddir at ddibenion eraill e.e. ffurflenni Plant sy'n derbyn gofal.

Os ydych chi'n bwriadu newid rhif adnabod plant yr ALI, naill ai ar gyfer plentyn unigol neu grŵp o blant, bydd hyn yn atal Llywodraeth Cymru rhag gallu dadansoddi ar draws gwahanol flynyddoedd neu rhwng y cyfrifiad Plant sy'n derbyn gofal a chymorth a'r cyfrifiad Plant sy'n derbyn gofal.

Oherwydd hyn, dylai unrhyw gynig i newid rhifau adnabod gael ei drafod gyda Llywodraeth Cymru yn gyntaf, cyn gwneud unrhyw newidiadau. Yr eithriad i hyn yw os yw rhif newydd yn cael ei ddyrannu ar gyfer plentyn wedi'i fabwysiadu.

Dyddiad geni

Dylai'r dyddiad geni gael ei ddarparu yn y fformat DD/MM/BBBB.

Os nad yw'r union ddyddiad geni yn hysbys, cofnodwch ddyddiad geni bras yn seiliedig ar amcangyfrif o oedran y plentyn ar y dyddiad atgyfeirio.

Rhyw

1 Gwryw

2 Benyw

Ar gyfer plant trawsryweddol, cofnodwch eu hunaniaeth o ran rhywedd ar hyn o bryd, nid pa ryw y cawsant eu neilltuo ar adeg eu geni.

Yr angen am ofal a chymorth

Mae'r cod hwn yn amlinellu'r prif reswm pam y dechreuodd plentyn dderbyn gwasanaethau gofal a chymorth. Ni ddylid ei adael yn wag. Dim ond un rheswm y gellir ei gofnodi.

Os yw plentyn yn derbyn gofal hefyd, efallai na fydd y prif god yr un fath â'r cod ar ffurflen y cyfrifiad Plant sy'n derbyn gofal.

Os oes gan blentyn fwy nag un angen, cofnodwch y prif categori.

Mae trefn y categorïau yn ymwneud â phenodoldeb y disgrifiad, yn hytrach na phwysigrwydd.

N1 Camdriniaeth neu esgeulustod

Plant sydd mewn angen o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod, neu sy'n wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod; mae'n cynnwys plant sy'n wynebu risg oherwydd trais domestig hefyd.

N2 Anabledd neu salwch plant

Plant a'u teuluoedd y mae eu prif angen am wasanaethau'n codi oherwydd anabledd, salwch neu gyflwr cynhenid y plentyn.

N3 Anabledd neu salwch rhieni

Plant y mae eu prif angen am wasanaethau'n codi oherwydd bod gallu eu rhieni (neu eu gofalywr) i ofalu amdanynt yn cael ei effeithio gan anabledd, salwch corfforol neu feddyliol neu ddibyniaethau'r rhiant (neu'r gofalywr).

N4 Teulu o dan straen difrifol

Plant y mae eu hanghenion yn codi o ganlyniad i fyw mewn teulu sy'n mynd trwy argyfwng dros dro sy'n effeithio ar allu'r rhieni i ddiwallu rhai o anghenion y plant yn ddigonol.

N5 Camweithrediad teuluol

Plant y mae eu hanghenion yn codi o ganlyniad i fyw mewn teulu lle nad yw gallu'r rhieni yn ddigon da o bell ffordd.

N6 Ymddygiad cymdeithasol annerbyniol

Plant a theuluoedd y mae eu hangen am wasanaethau'n codi o ganlyniad i ymddygiad y plentyn yn cael effaith andwyol ar y gymuned.

N8 Rhieni absennol

Plant y mae eu hangen am wasanaethau'n codi o ganlyniad i'r ffaith nad yw eu rhieni ar gael i ddarparu ar eu cyfer.

N9 Aflonyddwch mabwysiadu

Y prif reswm dros ddechrau cyfnod o dderbyn gofal oedd aflonyddwch mabwysiadu.

Rhif Unigryw'r Disgybl (UPN)

Mae Rhif Unigryw'r Disgybl (UPN) yn cael ei ddyrannu'n awtomatig i bob plentyn mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr. Rhif adnabod yn unig ydyw, ac fe'i defnyddir mewn cyd-destun addysgol yn ystod gyrfya ysgol plentyn ac mae'n ddarostyngedig i gyfyngiadau Diogelu Data.

Rhaid i UPN gynnwys 13 o lythrennau yn y fformat Annnnnnnnnnnn neu AnnnnnnnnnnnA (ar gyfer UPN dros dro), gyda A yn dynodi llythyren ac n yn dynodi rhif. Mae UPNs dros dro ond yn cael eu cyhoeddi fel mesur dros dro hyd nes i'r UPN parhaol gael ei gyhoeddi.

Rhaid i'r ALI wneud pob ymdrech i olrhain UPN plentyn. Os na fydd plentyn wedi cael UPN gan ysgol a gynhelir, efallai y bydd wedi cael un gan Adran Addysg yr Awdurdod Lleol, sy'n gallu rhoi UPN i'r rhai sydd mewn darpariaeth amgen, er enghraifft. Dim ond os nad oes modd canfod UPN y dylid gadael yr eitem hon yn wag.

Noder bod Ysgolion Meithrin a gynhelir yn dyrannu UPNs hefyd, felly efallai y bydd gan blant UPN o pan fyddant yn 2 neu 3 oed ymlaen.

Ethnigrwydd

Y peth cyntaf y dylid ei wneud wrth bennu ethnigrwydd yw gofyn i'r plentyn am ei hunaniaeth ethnig. Os nad yw'n ddigon hen i ymateb, gofynnwch i'w brif ofalwr.

WTE – Gwyn

MIXD – Grwpiau ethnig cymysg

ASAB – Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

BBAC – Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig

OOH – Grŵp ethnig arall

REFU – Gwybodaeth wedi'i gwrthod

NOBT – Gwybodaeth heb ei chael

Ceisiwr lloches

Ystyr ceisiwr lloches yw rhywun sydd wedi gwneud cais am amddiffyniad yn seiliedig ar y Confensiwn Ceiswyr Lloches neu Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac sy'n disgwyl penderfyniad ar y cais hwnnw. Cofnodwch a yw plentyn wedi bod yn blentyn sy'n ceisio

lloches ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod casglu, boed hynny fel plentyn dan oed ar ei ben ei hun (UASC) neu fel aelod o deulu y cydnabuwyd bod ganddo statws ceisio lloches.

Nodwch 0 os nad oedd y plentyn wedi bod yn blentyn sy'n ceisio lloches drwy'r amser rhwng 1 Ionawr 2018 a 31 Mawrth 2019.

Nodwch 1 os oedd y plentyn wedi bod yn blentyn ar ei ben ei hun yn ceisio lloches ar unrhyw adeg rhwng 1 Ionawr 2018 a 31 Mawrth 2019.

Nodwch 2 os oedd y plentyn wedi bod yn aelod o deulu sy'n ceisio lloches ar unrhyw adeg rhwng 1 Ionawr 2018 a 31 Mawrth 2019.

Plentyn sy'n Derbyng Gofal

Mae hwn yn faes cywir/anghywir.

Nodwch 1 os oedd y plentyn yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 0 os nad oedd y plentyn yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2019.

Anabled

Cofnodwch a oes gan blentyn anabled ar 31 Mawrth 2019. At ddibenion yr eitem ddata hon, mae'r diffiniad o anabled yn dilyn y diffiniad yn Adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n nodi'r canlynol:

“Mae gan berson anabled os—

(a) oes ganddo nam corfforol neu feddyliol, a

(b) bod y nam yn cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.”

Y categorïau anabled a nodir yw'r rhai a ddisgrifir mewn canllawiau ar gyfer Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae naw maes anabled ar y ffurflen:

Dim

Symudedd

Medrusrwydd llaw

Cydgysylltiad corfforol

Ymataliaeth

Y gallu i godi, cario neu symud gwrthrychau bob dydd

Lleferydd, clyw a golwg

Cof

Canfyddiad o'r risg o berygl corfforol

Os nodir 1 am “dim”, ni ddylid gwneud unrhyw gofnodion eraill yn yr adran hon.

Os nodir 0 am “dim”, yna ar gyfer pob un o'r mathau penodol o anabled sy'n berthnasol, nodwch 1 os oedd gan y plentyn anabled o'r fath ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 0 os nad oedd gan y plentyn anabled o'r fath ar 31 Mawrth 2019.

Efallai y bydd gan blant anabledau lluosog; os felly, gellir nodi bod mwy nag un categori yn gywir. Efallai y bydd nifer fach o blant yn anabl ond nad oes ganddynt unrhyw un o'r anabledau a nodir. Ar gyfer y plant hyn, dylai "dim" fod yn 0 a dylai pob un o'r mathau o anabledd a nodir fod yn 0 hefyd.

Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig

Mae hwn yn faes cywir/anghywir.

Nodwch 1 os oedd gan y plentyn Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 0 os nad oedd gan y plentyn Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ar 31 Mawrth 2019.

Iaith

Ar gyfer plant 3 oed neu hŷn ar 31 Mawrth 2019:

Cofnodwch ddewis iaith y plentyn; dyma'r iaith mae'r plentyn yn dymuno ei defnyddio i gyfathrebu ag eraill. Gweler [Atodiad B](#) – Cod iaith.

Nodwch 80 os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol i grŵp oedran y plentyn ar 31 Mawrth 2019.

Troseddau ieuenctid

Ar gyfer plant 10 oed neu hŷn ar 31 Mawrth 2019:

Mae hwn yn faes cywir/anghywir.

Nodwch 1 os oedd gan y plentyn gynllun ar waith neu'n cael ei ddatblygu gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 0 os nad oedd gan y plentyn gynllun ar waith neu'n cael ei ddatblygu gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 80 os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol.

Arolygon iechyd plant

Ar gyfer plant 5 oed neu iau ar 31 Mawrth 2019:

Mae hwn yn faes cywir/anghywir.

Nodwch 1 os oedd arolygon iechyd plant neu wiriadau hybu iechyd plant y plentyn yn gyfredol ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 0 os nad oedd arolygon iechyd plant neu wiriadau hybu iechyd plant y plentyn yn gyfredol ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 80 os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol i grŵp oedran y plentyn ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 88 os nad yw gwybodaeth ar gael ar 31 Mawrth 2019.

Dylai achosion lle mae'r plentyn wedi methu gwiriadau iechyd cynharach gael eu nodi'n gywir, cyn belled â'i fod wedi derbyn ei wiriadau diweddar. Mae'r gwiriadau iechyd hyn yn cael eu cwmpasu gan y Rhaglen Arolygu Iechyd Plant. Ystyrir bod gwiriadau plentyn yn gyfredol os yw arolygon iechyd plant neu wiriadau hybu iechyd plant wedi'u cynnal erbyn 31 Mawrth, hyd yn oed os

cawsant eu cynnal yn hwyrach nag y dylent. Os yw plentyn wedi methu pob un o'i wiriadau iechyd blaenorol ac eithrio'r un diweddaraf, dylid ystyried bod y gwiriadau'n gyfredol.

Imiwneiddiadau

Mae hwn yn faes cywir/anghywir.

Nodwch 1 os oedd imiwneiddiadau'r plentyn yn gyfredol ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 0 os nad oedd imiwneiddiadau'r plentyn yn gyfredol ar 31 Mawrth 2019.

At ddibenion y cyfrifiad Plant sy'n derbyn gofal a chymorth, mae 'cyfredol' yn golygu bod y plentyn wedi derbyn, erbyn 31 Mawrth 2019, yr holl imiwneiddiadau y dylai plentyn o'i oedran ef fod wedi'u derbyn, yn unol â'r wybodaeth bresennol am imiwneiddiadau plant ar wefan [lechyd Cyhoeddus Cymru](#).

Nid yw'n ofynnol bod y plentyn wedi derbyn yr imiwneiddiadau ar yr oeddrannau a amlinellir yn y tabl, ond rhaid bod imiwneiddiadau'r plentyn yn 'gyfredol' erbyn 31 Mawrth, hyd yn oed os cawsant eu derbyn yn hwyr yn ôl yr amserlen imiwneiddio.

Mewn achosion lle nad yw plant wedi derbyn eu himiwneiddiadau oherwydd bod rhieni wedi gwrthod caniatâd, am resymau iechyd, neu oherwydd bod y person ifanc wedi gwrthod, dylid nodi nad yw'r imiwneiddiadau'n gyfredol.

Mae asesu a yw imiwneiddiadau person yn gyfredol yn benderfyniad clinigol yn bennaf, ac nid ydym yn disgwyl i staff adrannau gwasanaethau cymdeithasol efallai nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant clinigol perthnasol neu nad oes ganddynt fynediad at gofnodion meddygol y plentyn wneud y penderfyniad hwn ar eu pennau eu hunain. At ddibenion y cyfrifiad Plant sy'n derbyn gofal a chymorth, mae barn meddyg neu nyrs practis bod imiwneiddiadau person ifanc yn gyfredol yn ddigon.

Gwiriadau deintyddol

Ar gyfer plant 5 oed a hŷn ar 31 Mawrth 2019:

Mae hwn yn faes cywir/anghywir.

Nodwch 1 os oedd dannedd y plentyn wedi cael eu harchwilio gan ddeintydd yn ystod y deuddeg mis hyd at 31 Mawrth 2019.

Nodwch 0 os nad oedd dannedd y plentyn wedi cael eu harchwilio gan ddeintydd yn ystod y deuddeg mis hyd at 31 Mawrth 2019.

Nodwch 80 os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol i grŵp oedran y plentyn ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 88 os nad yw gwybodaeth ar gael ar 31 Mawrth 2019.

Mae disgwyl i bob plentyn a gwmpesir gan y cyfrifiad Plant sy'n derbyn gofal a chymorth gael eu dannedd wedi'u harchwilio. Dylai plant ifanc iawn gael archwiliad o'r geg hyd yn oed os nad yw eu dannedd wedi datblygu eto. Ar gyfer plant ifanc iawn, nid oes rhaid i'r archwiliad gael ei gynnal gan ddeintydd, a gellir cyfrif archwiliad gan bediatregydd neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol eraill a

oedd yn cynnwys archwiliad o'r geg. Dylid ystyried nad yw plant a wrthododd gael eu dannedd wedi'u harchwilio wedi derbyn archwiliad deintyddol.

Camddefnyddio sylweddau

Ar gyfer plant 10 oed a hŷn ar 31 Mawrth 2019:

Mae hwn yn faes cywir/anghywir.

Nodwch 1 os oedd gan y plentyn broblem camddefnyddio sylweddau ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 0 os nad oedd gan y plentyn broblem camddefnyddio sylweddau ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 80 os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol i grŵp oedran y plentyn ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 88 os nad yw gwybodaeth ar gael ar 31 Mawrth 2019.

Mae'r canllawiau canlynol wedi'u hysgrifennu i helpu awdurdodau lleol i gasglu data mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau.

Llywodraeth Cymru sy'n bennaf gyfrifol am bolisi ar atal camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed.

Mae camddefnyddio sylweddau a phroblemau cysylltiedig yn niweidio lles plant a phobl ifanc ac yn eu hatal rhag cyflawni eu llawn botensial.

Camddefnyddio sylweddau – beth yw problem?

Mae adroddiad y Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd (HAS) (1996) yn nodi'r canlynol: 'one off and experimental use of drugs and alcohol cannot in itself be seen as indicative of having caused actual harm or being related to any personal disorder'. Mewn geiriau eraill, ni ddylai'r ffaith bod person ifanc wedi cymryd sylwedd arwain at y casgliad awtomatig bod ganddo broblem neu gyflwr i'w drin. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig cydnabod bod pob sylwedd a gymerir gan bobl ifanc yn gallu bod yn niweidiol.

Mae canllawiau diweddar a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn cynnig y diffiniad canlynol o gamddefnyddio sylweddau: 'intoxication by – or regular excessive consumption of and/or dependence on – psychoactive substances, leading to social, psychological, physical or legal problems. It includes problematic use of both legal and illegal drugs (including alcohol when used in combination with other substances).'

Cyffuriau, alcohol a sylweddau

Yn y ddogfen ganllawiau hon, defnyddir y term 'cyffur' i gyfeirio at unrhyw sylwedd seicotropig, gan gynnwys cyffuriau anghyfreithlon, defnydd anghyfreithlon o gyffuriau presgripsiwn a sylweddau anwedol. Yn aml, mae defnydd pobl ifanc o gyffuriau yn gysylltiedig â'r defnydd o alcohol. Felly, mae'r term 'sylwedd' yn cyfeirio at gyffuriau ac alcohol, ond nid tybaco.

Iechyd meddwl

Ar gyfer plant 10 oed a hŷn ar 31 Mawrth 2019:

Mae hwn yn faes cywir/anghywir.

Dylai'r ffurflen hon gael ei lanlwytho / dilysu / cyflwyno i [Afon](#) erbyn 25 Hydref 2019
Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cynnwys-
Ffoniwch: 03000 251 274 E-bost: ystadegau.gwascymdeithasol@llyw.cymru

Nodwch 1 os oedd gan y plentyn broblem iechyd meddwl ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 0 os nad oedd gan y plentyn broblem iechyd meddwl ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 80 os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol i grŵp oedran y plentyn ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 88 os nad yw gwybodaeth ar gael ar 31 Mawrth 2019.

Peidiwch â chofnodi bod yr eitem hon yn gywir ar gyfer y plant hynny problem camddefnyddio sylweddau oedd eu hunig broblem.

Dylech gynnwys problemau iechyd meddwl sydd wedi'u diagnosiso gan ymarferydd meddygol a phlant sy'n derbyn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) neu sydd ar restr aros am wasanaethau. Dylech gynnwys iselder, hunan-niwed ac anhwylderau bwyta. Dylech gynnwys plant os byddant yn dweud eu bod wedi dioddef problemau iechyd meddwl heb ddiagnosis. Ni ddylech gynnwys Anhwylderau ar y Sbectwm Awtistig ac anabledau dysgu eraill.

Gallu rhieni

Mae pob un o'r categorïau gallu rhieni yn faes cywir/anghywir.

Ar gyfer pob un o'r categorïau, nodwch 1 os oedd y broblem rianta yn bodoli ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 0 os nad oedd y broblem rianta yn bodoli ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 88 os nad yw gwybodaeth ar gael ar 31 Mawrth 2019.

Os oedd mwy nag un ffactor yn bresennol, gallwch nodi bod mwy nag un categori yn gywir, fel sy'n briodol.

Rhieni yn camddefnyddio sylweddau/alcohol

Dylech nodi bod y maes hwn yn gywir os oes gan un neu fwy o'r rhieni neu'r gofawyr broblem camddefnyddio sylweddau. Mae'r diffiniad o gamddefnyddio sylweddau uchod.

Rhieni ag anabledau dysgu

Dylech nodi bod y maes hwn yn gywir os oes gan un neu fwy o'r rhieni neu'r gofawyr nam ar swyddogaeth ddeallusol sy'n cael effaith andwyol ar eu datblygiad ac sy'n arwain at anawsterau o ran deall a defnyddio gwybodaeth, dysgu sgiliau newydd a llwyddo i fyw'n annibynnol.

Rhieni â salwch meddwl

Dylech nodi bod y maes hwn yn gywir os oes gan un neu fwy o'r rhieni neu'r gofawyr broblem iechyd meddwl. Dylech gynnwys problemau iechyd meddwl sydd wedi'u diagnosiso gan ymarferydd meddygol, problemau mae pobl yn eu hadrodd eu hunain a rhieni sy'n derbyn gwasanaethau gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Dylech gynnwys iselder, hunan-niwed ac anhwylderau bwyta. Ni ddylech gynnwys camddefnyddio sylweddau, Anhwylderau ar y Sbectwm Awtistig ac anabledau dysgu eraill.

Rhieni â salwch corfforol

Dylech nodi bod y maes hwn yn gywir os oes gan un neu fwy o'r rhieni neu'r gofawyr problemau iechyd corfforol sy'n effeithio ar eu gallu i ofalu am y plentyn.

Cam-drin domestig

Dylech nodi bod y maes hwn yn gywir os oes gan un neu fwy o'r rhieni neu'r gofawyr broblemau cam-drin domestig. Mae cam-drin domestig yn cynnwys bygythiadau, trais neu fygythiadau o drais corfforol, rhywiol, seicolegol neu ariannol mewn perthynas agos neu deuluol ac sy'n creu patrwm o ymddygiad gorfodol a rheoli ymddygiad. Gall hyn gynnwys priodas dan orfod a 'throseddau ar sail anrhydedd'.

Y Gofrestr Amddiffyn Plant

Mae hwn yn faes cywir/anghywir.

Nodwch 1 os oedd y plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn plant ar 31 Mawrth 2019.

Nodwch 0 os nad oedd y plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn plant ar 31 Mawrth 2019.

Y dyddiad y cafodd ei ychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant

Dylai'r dyddiad y cafodd y plentyn ei ychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant gael ei nodi yn y fformat DD/MM/BBBB.

Os yw plentyn wedi cael ei ychwanegu at y gofrestr fwy nag unwaith, dylid defnyddio'r dyddiad diweddaraf y cafodd ei ychwanegu.

Gadewch y maes hwn yn wag ar gyfer plant nad ydynt ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth 2019.

Categori o gam-drin ac esgeulustod a gofnodwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

Cofnodwch y categori (neu'r categorïau o gam-drin ac esgeulustod a gofnodwyd ar y gofrestr ar gyfer plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth 2019.

Esgeulustod

Corfforol

Rhywiol

Ariannol

Emosiynol/Seicolegol (yn unig)

Dylai'r categori a ddefnyddir roi syniad o'r prif bryderon wrth gofrestru. Ar gyfer pob un o'r categorïau penodol sy'n berthnasol, nodwch 1 os oedd y categori'n bresennol ar y gofrestr. Nodwch 0 os nad oedd y categori'n bresennol ar y gofrestr.

Noder yr ystyrir bod cam-drin emosiynol/seicolegol yn digwydd os yw un o'r mathau eraill o gamdriniaeth yn digwydd. Felly, dim ond os bydd yn digwydd yn annibynnol heb fathau eraill o gamdriniaeth y bydd yn cael ei gofnodi yma. Os nodir 1 am "emosiynol/seicolegol (yn unig)", ni ddylid cofnodi unrhyw beth arall yn yr adran hon.

Gadewch y maes hwn yn wag ar gyfer plant nad ydynt ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth 2019.

Atodiad A – Rhester o eitemau data

Cod awdurdod lleol
Rhif adnabod plant yr awdurdod lleol
Dyddiad geni
Rhyw
Yr angen am ofal a chymorth
Rhif Unigryw'r Disgybl (UPN)
Ethnigrwydd
Ceisiwr lloches
Plentyn sy'n derbyn gofal
Anabledd – Dim
Anabledd – Symudedd
Anabledd – Medrusrwydd llaw
Anabledd – Cydgysylltiad corfforol
Anabledd – Ymataliaeth
Anabledd – Y gallu i godi, cario neu symud gwrthrychau bob dydd
Anabledd – Lleferydd, clyw a golwg
Anabledd – Cof
Anabledd – Canfyddiad o'r risg o berygl corfforol
Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig
Iaith
Troseddau ieuenctid
Arolygon iechyd plant
Imiwneiddiadau
Gwiriadau deintyddol
Camddefnyddio sylweddau
Iechyd meddwl
Rhieni yn camddefnyddio sylweddau/alcohol
Rhieni ag anableddau dysgu
Rhieni â salwch meddwl
Rhieni â salwch corfforol
Cam-drin domestig
Y Gofrestr Amddiffyn Plant
Y dyddiad y cafodd ei ychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant
Cam-drin – Esgeulustod
Cam-drin – Corfforol
Cam-drin – Rhywiol
Cam-drin – Ariannol
Cam-drin – Emosiynol/Seicolegol (yn unig)

Atodiad B – Cod iaith

ENG	Saesneg
CYM	Cymraeg
ACL	Acholi
ADA	Adangme
AFA	Afar-Saho
AFK	Afrikaans
AKA	Akan/Twi-Fante
ALB	Albaneg/Shqip
ALU	Alur
AMR	Amhareg
ARA	Arabeg
ARM	Armeneg
ASM	Asameg
ASR	Asyrieg/Aramaeg
AYB	Anyi-Baule
AYM	Aymara
AZE	Azeri
BAI	Bamileke (Unrhyw un)
BAL	Balwtsi
BEJ	Bejäeg/Bedawi
BEL	Belarwseg
BEM	Bemba
BHO	Bhojpuri
BIK	Bikol
BIS	Bislama
BLT	Balti Tibetan
BMA	Byrmaneg/Myanma
BNG	Bengaleg
BSL	Iaith Arwyddion Prydain
BSQ	Basgeg/Euskara
BUL	Bwlgareg
CAM	Cambodian/Khmer
CAT	Catalan
CCE	Saesneg Creol Caribïaidd
CF	Ffrangeg Creol Caribïaidd
CGA	Chaga
CGR	Chattisgarhi/Khatahi
CHE	Chechen
CHI	Tsieinëeg
CKW	Chokwe
CRN	Cernyweg
CTR	Chitralli/Khowar
CWA	Chichewa/Nyanja
CZE	Tsieceg
DAN	Daneg
DGA	Dagaare
DGB	Dagbane
DIN	Dinka/Jieng
DUT	Iseldireg/Ffleminieg
DZO	Dzongkha/Bhutanese
EBI	Ebira
EDO	Edo/Bini

Dylai'r ffurflen hon gael ei lanlwytho / dilysu / cyflwyno i [Afon](#) erbyn 25 Hydref 2019
Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cynnwys-
Ffoniwch: 03000 251 274 E-bost: ystadegau.gwascymdeithasol@llyw.cymru

EFI	Efik-Ibibio
ESA	Esan/Ishan
EST	Estoneg
EWE	Ewe
EWO	Ewondo
FAN	Fang
FIJ	Ffijieg
FIN	Ffinneg
FON	Fon
FRN	Ffrangeg
FUL	Fula/Fulfulde-Pulaar
GAA	Ga
GAE	Gaeleg/Gwyddeleg
GAL	Gaeleg (yr Alban)
GEO	Georgeg
GER	Almaeneg
GGO	Gogo/Chigogo
GKY	Kikuyu/Gikuyu
GLG	Galician/Galego
GRE	Groegeg
GRN	Guarani
GUJ	Gujarati
GUN	Gurenne/Frafra
GUR	Gurma
HDK	Hindko
HEB	Hebraeg
HER	Herero
HGR	Hwngareg
HIN	Hindi
IBA	Iban
IDM	Idoma
IGA	Igala
IGB	Igbo
IJO	Ijo (Unrhyw un)
ILO	Ilokano
ISK	Itsekiri
ISL	Islandeg
ITA	Eidaleg
JAV	Jafaneg
JIN	Jinghpaw/Kachin
JPN	Japaneeg
KAM	Kikamba
KAN	Kannada
KAR	Karen (Unrhyw un)
KAS	Kashmiri
KAU	Kanuri
KAZ	Kazakh
KCH	Katchi
KGZ	Kirghiz/Kyrgyz
KHA	Khasi
KHY	Kihaya/Luziba
KIN	Kinyarwanda
KIR	Kirundi
KIS	Kisi (Gorllewin Affrica)

Dylai'r ffurflen hon gael ei lanlwytho / dilysu / cyflwyno i [Afon](#) erbyn 25 Hydref 2019
Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cynnwys-
Ffoniwch: 03000 251 274 E-bost: ystadegau.gwascymdeithasol@llyw.cymru

KLN	Kalenjin
KMB	Kimbundu
KME	Kimeru
KNK	Konkani
KNY	Kinyakyusa-Ngonde
KON	Kikongo
KOR	Corëeg
KPE	Kpelle
KRI	Krio
KRU	Kru (Unrhyw un)
KSI	Kisii/Ekegusii (Kenya)
KSU	Kisukuma
KUR	Cwrdeg
LAO	Laoseg
LBA	Luba
LGA	Luganda
LGB	Lugbara
LGS	Lugisu/Lumasaba
LIN	Lingala
LIT	Lithwaneg
LNG	Lango (Uganda)
LOZ	Lozi/Silozi
LSO	Lusoga
LTV	Latfieg
LTZ	Lwcsembwrgeg
LUE	Luvale/Luena
LUN	Lunda
LUO	Luo (Kenya/Tanzania)
LUY	Luhya (Unrhyw un)
MAG	Magahi
MAI	Maithili
MAK	Makua
MAN	Manding/Mandekan
MAO	Maori
MAR	Marathi
MAS	Maasai
MDV	Maldivian/Dhivehi
MEN	Mende
MKD	Macedonian
MLG	Malagasy
MLM	Malayalam
MLT	Malti
MLY	Maleieg/Indoneseg
MNA	Magindanao-Maranao
MNG	Mongoleg (Khalkha)
MNX	Gaeleg Ynys Manaw
MOR	Moore/Mossi
MSC	Mawriseg/Creol y Seychelles
MUN	Munda (Unrhyw un)
MYA	Maya (Unrhyw un)
NAH	Nahuatl/Mecsicaneg
NAM	Nama/Damara
NBN	Nubian (Unrhyw un)
NDB	Ndebele

Dylai'r ffurflen hon gael ei lanlwytho / dilysu / cyflwyno i [Afon](#) erbyn 25 Hydref 2019
Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cynnwys-
Ffoniwch: 03000 251 274 E-bost: ystadegau.gwascymdeithasol@llyw.cymru

NEP	Nepali
NOR	Norwyeg
NUE	Nuer/Naadh
NUP	Nupe
NWA	Newari
NZM	Nzema
OAM	Ambo/Oshiwambo
OGN	Ogoni (Unrhyw un)
ORI	Oriya
ORM	Oromo
OTL	Iaith arall / Anhysbys / Methu cyfathrebu
PAG	Pangasinan
PAM	Pampangan
PAT	Pashto/Pakhto
PHA	Pahari/Himachali (India)
PHR	Pahari (Pakistan)
PNJ	Panjabi
POL	Pwyleg
POR	Portiwgaleg
PRS	Persian/Farsi
QUE	Quechua
RAJ	Rajasthani/Marwari
RME	Romani/Romani Saesneg
RMI	Romani (Rhyngwladol)
RMN	Rwmaneg
RMS	Romansch
RNY	Runyakitara
RUS	Rwseg
SAM	Samöeg
SCB	Serbeg/Croateg/Bosnian
SCO	Sgoteg
SHL	Shilluk/Cholo
HO	Shona
SID	Sidamo
SIO	Iaith Arwyddion (Arall)
SLO	Slofaceg
SLV	Slofeneg
SND	Sindhi
SNG	Sango
SNH	Sinhala
SOM	Somalieg
SPA	Sbaeneg
SRD	Sardeg
SRK	Siraiki
SSO	Sotho/Sesotho
SSW	Swazi/Siswati
STS	Tswana/Setswana
SWA	Swahili/Kiswahili
SWE	Swedeg
TAM	Tamil
TEL	Telugu
TEM	Temne
TES	Teso/Ateso
TGE	Tigre

Dylai'r ffurflen hon gael ei lanlwytho / dilysu / cyflwyno i [Afon](#) erbyn 25 Hydref 2019
Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cynnwys-
Ffoniwch: 03000 251 274 E-bost: ystadegau.gwascymdeithasol@llyw.cymru

TGL	Tagalog/Filipino
TGR	Tigrinya
THA	Thai
TIB	Tibeteg
TIV	Tiv
TMZ	Berber/Tamazight
TNG	Tonga/Chitonga (Zambia)
TON	Tongeg (Ynysoedd y De)
TPI	Tok Pisin
TRI	Gwyddeleg Teithwyr/Sielta
TSO	Tsonga
TUK	Tyrcmeneg
TUL	Tulu
TUM	Tumbuka
TUR	Tyrceg
UKR	Wcreineg
UMB	Umbundu
URD	Wrdw
URH	Urhobo-Isoko
UYG	Uyghur
UZB	Wsbeceg
VEN	Venda
VIE	Fietnameg
VSY	Visayan/Bisaya
WAP	Wa-Paraok (De-ddwyrain Asia)
WCP	Portiwgaleg Creol Gorllewin Affrica
WOL	Wolof
WPE	Saesneg fratiog Gorllewin Affrica
XHO	Xhosa
YAO	Yao/Chiyao (Dwyrain Affrica)
YDI	Iddew-Almaeneg
YOR	Yoruba
ZND	Zande
ZUL	Zwlweg
ZZX	Wedi gwrthod datgelu'r wybodaeth